



## Ysgol Pentreuchaf

### 142. Polisi Trosglwyddo a Chyswilt Cynradd Uwchradd

#### Nod

Sicrhau gwybodaeth ddefnyddiol i'r ysgol uwchradd a throsglwyddiad di-bryder i'r plant o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

#### Canllawiau

Dilynir y drefn a ganlyn wrth i blant drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.:

1. Bydd y Pennaeth B7 yn ymweld â'r ysgol i gyfarfod â phlant B6, ateb eu cwestiynau a.y.y.b. Rhoddir sylw manwl i gyraeddiadau plant sydd ag ADY yn ystod yr ymweliad hwn.
2. Trefnir i'r Prifathro Uwchradd a Phennaeth B7 gyfle i rhieni ymweld â'r ysgol Uwchradd (ac mae croeso i'r plant fod yn bresennol yn y cyfarfod yma hefyd).
3. Yn ystod tymor yr Hydref, bydd gwahoddiad i Gydlynnydd ADY yr ysgol Uwchradd i'r Adolygiad Blynnyddol i gyfarfod rhieni a phlant sydd ar Gam 3\* neu ar Ddatganiad
4. Caiff y plant sy'n trosglwyddo eu gwahodd i'r ysgol uwchradd yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd (neu weithiau pan fyddant yn B5 hefyd) i fynychu a/neu cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol.
5. Trefnir ymweliad diwrnod â'r ysgol uwchradd i blant B6, yn ystod Tymor yr Haf.  
Bydd ei bwyslais ar dawelu pryderon plant am yr elfennau hynny ar fywyd ysgol uwchradd fydd yn ddieithr iddynt. Caiff y plant wybodaeth am:
  - i). gael profiad o amserlen nodweddiadol yr ysgol.
  - ii). drefniadau addysg gorfforol (gan gynnwys y cawodydd);
  - iii). drefniadau ar gyfer cadw meddiannau personol;
  - iv). drefniadau cinio;
  - v). swyddogaeth nyrs yr ysgol a.y.y b..
6. Mae'r plant hefyd yn cael cyfle i ddod yn gyfarwydd ac adeilad Ysgol Glan y Môr yn ystod Eisteddfod yr Urdd, gemau pêl droed a phêl rwyd a.y.y.b.
7. Clustnodir cyfarfod Cynradd/Uwchradd tymhorol i sefydlu gweithgareddau cyswilt, i athrawon/penaethaid ddod i adnabod ei gilydd ac i gynllunio gweithgareddau a phrosiectau i sicrhau dilyniant a pharhad o'r cynradd i'r uwchradd.
8. Pan fo'n bosibl, bydd athrawon uwchradd yn ymweld â'r ysgol i gynnal gwersi penodol e.e. Cymraeg, Saesneg a.y.y.b.
9. Mae ysgolion cynradd y dalgylch wedi cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth, ffurflenni, lefelau/marciau ac unrhyw waith plant B6 fydd yr ysgol uwchradd yn dymuno ei dderbyn yn flynyddol ar ddyddiad a bennir gan yr ysgol uwchradd.
10. Bydd yr ysgolion cynradd a'r uwchradd yn cydweithio yn flynyddol ar safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru a GwE.
11. Bydd yr ysgolion cynradd a'r uwchradd yn cydweithio i greu cynllun strategol cydweithio er mwyn adnabod cyfleoedd ychwanegol ble y gallwn gydwethio i'r dyfodol.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**